

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS IAU
17EG O ORFFENNAF 2014 YN YSGOL GYNRADD, RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Gwyn Howatson, Medwyn Jones, Ian Hession, Deryl Roberts, Dewi Roberts, Cyngorydd Cyngor Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Mike Denman, Clwyd Thomas a Brynle Lloyd.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 13eg o Fai 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau nad oes yna brinder golygfa ar gylchfan ffordd Dinbych yn Rhuthun oherwydd tyfiant gwrych.

B. Derbyniwyd gwybodaeth bod Mr Tudor Jones o Gwmni Cennin wedi cychwyn ar y Wefan Gymunedol "Llanynys.Org". Penderfynwyd tynnu lluniau'r aelodau yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £8,516.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014 - £300.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014 - £75.00.

C. Derbyniwyd sylwadau gan Hacker Young, Archwiliwr Allanol y Cyngor bod balwms y Banc yn uchel. Arwyddwyd y Cadeirydd ar Glerc cyfrifon y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2014.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae'r ymgeisydd wedi tynnu yn ôl y cais cynllunio am dyrbin wynt yn Golf Links Farm, Rhewl.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am estyniad i Pen-y-Garth, Llanrhaeadr.

C. Cais cynllunio newydd am Weithdy a Thanc Olew yn Crig-y-Ddwyart, Rhewl - penderfynwyd ar y sylwad ynglŷn ar Danc Olew.

D. Cais cynllunio am estyniad i 4 Bro Clwyd, Rhewl – dim gwrthwynebiad.

6. GOHEBIAETH.

A. Penderfynwyd yr aelodau i drafod rhestr cyfalaf ffyrdd y gymuned at Gyngor Sir Ddinbych yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych, trwy law'r Cyngorydd Sir Merfyn Parry, wedi rhoi bin ysbwriel newydd yn stad Dolydd yn Rhewl.

C. Cytunodd Y Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, i edrych i mewn cwyn Mr Ellis Ashton, Glanrafon, Rhewl i'r stad y ffordd o flaen Glanrafon.

D. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Cytunodd Y Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, i edrych i mewn i'r materion briffyrdd canlynol yn y gymuned:-

- A. Coed wrth fynedfa Tan-y-Graig yn Rhewl.
- B. Coed yng nghae Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl yn cuddio'r Bont Afon Clywedog.
- C. Prinder torri cloddiau yn y gymuned.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 9fed o Fedi 2014 yn Ysgol Gynradd, Rhewl am 7.30 o'r gloch.